Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Animal and Plant Health Agency
Service/team
First address line
Second address line
Town/city
Postcode

T +44 xxx xxxx xxxx
F +44 xxx xxxx xxxx

www.gov.uk/apha

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

(insert address)

Cyfeirnod y Ddogfen: (Insert doc reference)
Cyfeirnod y Digwyddiad: (Insert incident Ref)

Rhif y Daliad: CPHH

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid (Lloegr) 2021
Gorchymyn Twbercwlosis (Yr Alban) 2023
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid Penodedig (Yr Alban) 2015
Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Lloegr) 2007
Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Yr Alban) 2008 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007(fel y'i diwygiwyd)

---

# Twbercwlosis: Hysbysiad yn ei Gwneud yn Ofynnol i Lanhau a Diheintio

Rwyf i, Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan yr awdurdod perthnasol, yn ei gwneud yn ofynnol i chi, yn unol â'r pwerau uchod, lanhau a diheintio'r safle, y cyfleusterau, y cerbydau a'r cyfarpar a nodir isod:

| **Manylion y Safle:** |
|---|
| (insert details) |

**Ar ôl cwblhau'r gwaith glanhau a diheintio, rhaid i'r datganiad dros y dudalen gael ei gwblhau cyn y gellir codi'r**

**cyfyngiadau ar symud.**

**E-bostiwch y datganiad i:**

**Ar gyfer safleoedd yn Lloegr:** CSC.TBBT5s@apha.gov.uk

**Ar gyfer safleoedd yn yr Alban:** ScotlandEndemics@apha.gov.uk

**Ar gyfer safleoedd yng Nghymru:** APHAWalesTBCaseManagementTeam@apha.gov.uk

**Neu, postiwch y datganiad i gyfeiriad swyddfa APHA uchod.**

Rhaid glanhau a diheintio, fel y nodir, ar ôl symud pob adweithydd TB a phob cysylltiad uniongyrchol. Mae hyn yn ofyniad er mwyn adfer Statws Heb TB Swyddogol (OTF) eich buches. Gall swyddogion APHA gynnal archwiliadau yn y fan a'r lle pan fyddant yn bresennol ar ffermydd yr effeithir arnynt, er mwyn cadarnhau a yw'r gwaith glanhau a diheintio wedi'i gynnal fel sy'n ofynnol.

Enw: (insert Name)

Dyddiad: (insert Date)

Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol / Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion Cymru / Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion yr Alban

Cyfeirnod y Ddogfen: (Insert doc ref)
Cyfeirnod y Digwyddiad: (Insert Incident Ref)

Rhif y Daliad: CPHH

---

# Datganiad o Gwblhau Gwaith Glanhau a Diheintio

**Llofnodwch y datganiad a dychwelwch gopi i gyfeiriad y swyddfa APHA uchod.**

Rwy'n datgan y cafodd y gwaith o lanhau a diheintio'r safle, y cyfleusterau, y cerbydau a'r cyfarpar a nodir yn yr Hysbysiad hwn:

| | |
|---|---|
| Ei gwblhau ddiwethaf ar | ☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐ |
| **Gan ddefnyddio'r diheintydd canlynol a gymeradwywyd ar y gyfradd wanhau a gymeradwywyd er mwyn rheoli TB buchol (rhowch enw'r cynnyrch a'r gyfradd wanhau a ddefnyddiwyd)** | Enw'r Cynnyrch: ____<br>Cyfradd Wanhau: ____ |
| Ticiwch y blwch hwn os yw adweithyddion/cysylltiadau uniongyrchol wedi'u hynysu ar borfa, a gaiff ei adael heb stoc newydd arno am 60 diwrnod ar ôl eu symud | ☐ |
| Llofnod | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | |
| Dyddiad | ☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐ |

**DIOGELU DATA**

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

**Canllawiau**

**Dull Glanhau a Diheintio**

1. Mae'n ofynnol i'r safle, cyfleusterau, cerbyd(au) neu'r cyfarpar y cyfeirir atynt neu rannau ohonynt gael eu glanhau a'u diheintio yn y dull a ddisgrifir isod:

- cfyn gwaredu tail o rannau o'r adeilad a nodir, cânt eu chwistrellu neu eu trwytho â diheintydd a gymeradwywyd
- rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir gael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio yn erbyn Twbercwlosis dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Lloegr) 2007 / Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Yr Alban) 2008 (fel y'i diwygiwyd)/ Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) a'i ddefnyddio yn unol â gofynion cymeradwyaeth o'r fath, yn enwedig y gyfradd wanhau. Rhaid i bob cynhwysydd sy'n cynnwys diheintydd a gymeradwywyd a gaiff ei roi ar werth neu ei ddosbarthu i brynwr ddangos label sy'n cynnwys enw'r gymeradwyaeth, gan gynnwys y gyfradd wanhau ar gyfer defnyddio'r diheintydd at ddibenion Rheoli TB
- ceir rhestr o'r diheintyddion a gymeradwywyd wrth ddilyn y ddolen ganlynol neu gall eich swyddfa APHA leol ei rhoi:
  https://www.gov.uk/guidance/defra-approved-disinfectant-when-and-how-to-use-it
- caiff tail wedyn ei waredu o'r rhannau penodol a'i bentyrru am o leiaf dair wythnos mewn lle nad yw'n hygyrch i anifeiliaid fferm lle y caiff ei drin â diheintydd addas neu ei orchuddio â haen o dail neu faw heb ei heintio. Argymhellir yn gryf na chaiff y tail hwn ei daenu ar dir pori, ac nad yw gwartheg yn pori ar dir pori am 60 diwrnod ar ôl gosod tail o wartheg adweithiol TB. Rhaid i wastraff hylifol o feudai a mannau eraill a ddefnyddiwyd gan yr anifeiliaid hyn gael eu diheintio os na chaiff ei gasglu ar yr un pryd â'r tail
- ar ôl gwaredu'r tail, caiff y cyfarpar a ddefnyddiwyd a'r rhannau a nodir eu crafu'n drylwyr, caiff y crafiadau eu gwaredu a'r cyfarpar a'r rhannau penodol eu glanhau a'u golchi'n drylwyr gan gymryd gofal i beidio â chreu erosolau ac, yn olaf, eu gorchuddio â diheintydd a gymeradwywyd
- caiff pob eitem a ddefnyddir ar gyfer yr anifeiliaid y mae'r Hysbysiad hwn yn berthnasol iddynt ei glanhau a'i golchi'n drylwyr mewn dull arall o'r fath y gall yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion yr Alban/Gweinidogion Cymru ei gymeradwyo'n ysgrifenedig
- ni ddylid rhoi stoc newydd ar gaeau, tir pori na thir arall a borwyd neu a ddefnyddiwyd gan wartheg sydd wedi'u heintio mewn ffermydd y mae achos o TB wedi effeithio arnynt ac ni ddylai da byw bori arnynt **am o leiaf 60 diwrnod** ar ôl symud yr adweithydd neu'r cysylltiad diwethaf. Bydd hyn yn sicrhau y bydd bacteria TB buchol a all fod wedi halogi'r amgylchedd yn marw'n naturiol, yn pydru ac yn anweithredol
- caiff y dillad diogelu a wisgwyd gan yr unigolion a gynhaliwyd y gwaith diheintio eu golchi mewn diheintydd a gymeradwywyd.

**Nodiadau**

1. O dan y Gorchmynion Twbercwlosis, mae'n drosedd i berchennog neu unrhyw unigolyn arall sy'n rheoli'r fuches fethu â glanhau a diheintio adeiladau, cerbydau, peiriannau neu gyfarpar fel sy'n ofynnol gan yr Hysbysiad hwn ac yn y dull a ddisgrifir. Mae'r Gorchmynion hefyd yn nodi, os bydd unigolyn y cyflwynir yr Hysbysiad hwn iddo yn methu â chydymffurfio â'i ofynion, gall yr Adran briodol drefnu'r gwaith glanhau a diheintio angenrheidiol ac adennill y costau o'r unigolyn sy'n gyfrifol.

2. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i gyfarwyddiadau'r diheintydd, gan gynnwys rhybuddion iechyd a diogelwch, a dylid sicrhau na chaiff llaeth ei halogi.